# Cwmpas x Adra

**Astudiaeth Achos**

Prosiect masnachol gan
Dwf Busnes ac
Ymgynghoriaeth.

# Mae Cwmpas wedi bod yn cefnogi Adra, sef y gymdeithas dai fwyaf yng ngogledd Cymru, ar ei llwybr gwerth cymdeithasol.

Bu Adam Cox, Ymgynghorydd Arweiniol Gwerth Cymdeithasol Cwmpas, a Sarah Evans, Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth Cwmpas, yn gweithio'n agos gyda Ceri Ellis-Jackson, Arweinydd Rhaglen Academi Adra, i helpu mesur proffil ac effaith gwerth cymdeithasol ar draws y cwmni.



**Adam Cox**

Ymgynghorydd Arweiniol: Gwerth Cymdeithasol, Cwmpas

Mae Adam wedi gweithio ar draws y sectorau cyhoeddus, preifat a'r trydydd sector, gan gyflwyno prosiectau a rhaglenni gwerth cymdeithasol ers dros 15 mlynedd. Datblygodd y maes arbenigedd hwn ar ôl bod yn gyfrifol am adnewyddu'r agwedd at fudd cymunedol o fewn awdurdod lleol.



**Sarah Evans**

Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth

Sarah yw Cyfarwyddwr Twf Busnes ac Ymgynghoriaeth Cwmpas a bu'n gweithio'n flaenorol fel prif reolwr mewn Llywodraeth Leol ac Uwch-ddarlithydd/Ymchwilydd ym Mhrifysgol Wrecsam.



**Ceri Ellis-Jackson**

Arweinydd Rhaglen Academi Adra

Mae gan Ceri dros saith mlynedd o brofiad gydag Adra, ar ôl bod yn Gydlynydd Gwerth Cymdeithasol, a chyfrannodd at greu'r astudiaeth achos hon gyda Cwmpas.

## Beth yw Gwerth Cymdeithasol

### Mae gwerth cymdeithasol yn ymwneud â chreu gwerth y tu hwnt i elw – gwerth sy'n helpu Cymru i ffynnu.

TMae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol Llywodraeth Cymru yn rhoi'r uchelgais, a'r rhwymedigaeth gyfreithiol, i ni i wella ein lles cymdeithasol, diwylliannol, amgylcheddol ac economaidd fel cenedl. Mae gan Gymru bopeth i'w ennill trwy weithredu yn ôl llythyren ac ysbryd y Ddeddf.

Nod Cwmpas yw rhoi gwerth cymdeithasol wrth wraidd pob busnes a sefydliad gyda chymorth sy'n ymarferol ac yn bragmatig i anghenion busnes.



## Ein gwaith gydag Adra

Mae Adra'n gofalu am bron 7,000 o gartrefi ac yn darparu gwasanaethau i fwy nag 16,000 o gwsmeriaid lleol, a'i nod yw sicrhau bod eu cartrefi bob amser yn fforddiadwy ac yn ddibynadwy. Ond y tu hwnt i hynny, mae Adra'n sylweddoli pwysigrwydd gwerth cymdeithasol wrth greu effaith tymor hir ar ddiwylliant y cwmni er budd ei gwsmeriaid.

Er bod pwyslais ar werth cymdeithasol bob amser wedi bod yn amlwg yn Adra, nid yw bob amser wedi cael ei ddiffinio'n glir. Yn ôl Ceri: :

> "Mae'r teimlad wastad wedi bod yno, rydyn ni wastad wedi bod yn ei wneud, ond dydyn ni ddim wedi bod yn ei gofnodi a'i ddathlu fel rydyn ni nawr."

I Adra, mae edrych o'r newydd ar sut mae gwerth cymdeithasol yn cael ei ddiffinio yn y sefydliad yn drobwynt. Ymagwedd gyfannol ydyw, ac mae Ceri'n ychwanegu:

"Mae'n gymaint yn fwy i ni na noddi tîm chwaraeon lleol. Rydyn ni'n ceisio edrych yn ddyfnach na'n gweithgareddau blaenorol. Er enghraifft, mae ein hyb datgarboneiddio newydd a chreu cyfleoedd lleol i bobl ifanc yn bethau a fydd yn parhau am flynyddoedd i ddod."

Daeth Cwmpas i sylw Adra gyntaf oherwydd ei adroddiad gwerth cymdeithasol a oedd yn cynghori Llywodraeth Cymru o ran y cyd-destun yng Nghymru. Mae Ceri'n ychwanegu:

"Mae Cwmpas wedi bod yn arwain y ffordd wrth ailddiffinio gwerth cymdeithasol yng Nghymru ers blynyddoedd, ac roedd gwybod bod ganddyn nhw'r wybodaeth iawn a'u bod nhw wedi'u lleoli yng Nghymru yn hanfodol i ni weithio gyda nhw."

Ar ôl ymuno, aeth Cwmpas ati i helpu i lywio trafodaethau ar newid gwerth cymdeithasol. Un o brif nodweddion hyn oedd gweithdy rhanddeiliaid, a gadeiriwyd ac a hwyluswyd gan dîm Cwmpas, ar bwysigrwydd gwerth cymdeithasol yn Adra. Daeth aelodau o'r tîm arweinyddiaeth weithredol a chyflogeion ar draws y sefydliad at ei gilydd i roi eu sylwadau ar werth cymdeithasol. Mae Ceri'n ychwanegu::

> "Roedd y gweithdy wedi ysgogi rhywbeth yn y tîm ac wedi dod â ni ynghyd fel busnes o ran yr hyn roedden ni eisiau i werth cymdeithasol ei gynrychioli i ni."

Yn dilyn ymlaen o'r gweithdy a roddodd lawer o wybodaeth, creodd Cwmpas adroddiad ar ganfyddiadau'r diwrnod yr oedd Adra wedi gallu eu diffinio'n glir a'u cynnwys mewn cynllun gweithredu..

→



## Ein gwaith gydag Adra parhau

TRoedd tîm Cwmpas hefyd wedi gallu adolygu'r drafft cyntaf o'r cynllun gweithredu, a oedd yn amhrisiadwy, ym marn Ceri:

"Roedd yn wych gallu cael y safbwynt allanol, diduedd hwnnw sy'n helpu i ddilysu'r hyn rydyn ni'n gweithio arno."

Mae'r cam cyntaf, archwiliadol hwn o waith gwerth cymdeithasol wedi caniatáu i Adra symud ymlaen â'i newid gwerth cymdeithasol, ac mae hynny wedi arwain y sefydliad at gam nesaf ei daith.

Mae'r ail gam hwn yn cynnwys ystyried sut gellir ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn ymgysylltu â chyflenwyr ac edrych ar brosesau caffael, a bydd Cwmpas yn dychwelyd i gynorthwyo Adra â'r prosiect hwn. Mae Adam yn esbonio:

"Rydyn ni mor falch o fod ar y daith hon gydag Adra, a bydd bod yn rhan o'r ail gam hwn yn rhoi llawer o foddhad ar ôl gweld yr holl waith a wnaed i wireddu cam un."

## Effaith

Dyma rai o ganfyddiadau allweddol y gweithdy rhanddeiliaid a gynhwyswyd yn y cynllun gweithredu::

- Awydd i gael 'Hyrwyddwr Gwerth Cymdeithasol' ar fwrdd Adra
- 1)Annog y grŵp 'Gwerth am Arian' mewnol i edrych yn ofalus ar gaffael cymdeithasol gyfrifol

Mae'r gwaith hefyd wedi creu camau gweithredu ar gyfer effaith tymor hwy, gan gynnwys llunio adroddiad cymdeithasol blynyddol a fydd yn mesur effaith y gwaith gwerth cymdeithasol sy'n cael ei wneud o flwyddyn i flwyddyn.

Mae Ceri'n teimlo bod yr effeithiau hyn, yr oedd Cwmpas wedi cynghori arnynt a'u cefnogi i gyd, yn rhoi'r hwb ychwanegol i werth cymdeithasol yn y busnes sy'n helpu Ceri â'i rôl:

"Yr hyn sy'n allweddol ei ddeall wrth ymgorffori gwerth cymdeithasol mewn sefydliad yw nad oes terfyn amser. Mae'n esblygu'n gyson. Ac yma yn Adra, rydyn ni eisiau gwneud yn siŵr bod ein gwaith a'n heffeithiau'n addasu drwy'r amser, hefyd. Mae popeth yn waith sy'n mynd rhagddo."

### Cyngor i fusnesau eraill sy'n awyddus i fabwysiadu gwerth cymdeithasol yn y gweithle

Mae Ceri'n esbonio, yn ei phrofiad hi, nad oes ffordd gywir nac anghywir o weithredu gwerth cymdeithasol mewn sefydliad gan fod pob sefydliad yn wahanol. Ond mae hi'n awyddus i annog pobl eraill i weld y camau cadarnhaol a gymerir trwy ddiweddaru arferion gwaith:

"Peidiwch ag ofni plymio i mewn. Rwy'n credu ei bod yn bwysig cychwyn arni. Gallwch adolygu'r hyn rydych chi'n gweithio arno'n barhaus a gwneud gwelliannau ar y pryd."

Mae rhwydweithio'n ddarn o gyngor y mae Ceri'n awyddus i'w drosglwyddo i fabwysiadwyr eraill, hefyd. P'un a yw hynny'n golygu gweithio gyda thrydydd partïon, aros yn gysylltiedig o fewn eich sector neu siarad â phobl sy'n gwneud yr un peth â chi, mae cefnogaeth yn caniatáu i dîm deimlo ei fod wedi'i rymuso i gyflawni newid. Mae Ceri'n ychwanegu:

**"Dyna'r prif beth y mae Cwmpas wedi gallu ei roi i ni yn Adra, mewn gwirionedd. Mae'r llais arbenigol yna mewn cyd-destun sy'n fythol newid wedi rhoi cymorth a chefnogaeth ychwanegol i ni ar hyd y ffordd."**

cwmpas

**Darganfyddwch fwy:**

Ffôn: 0300 111 5050
E-bost: info@cwmpas.coop
Gwefan: cwmpas.coop

Chwiliwch am **Cwmpas**
ar y cyfryngau cymdeithasol